



Your ref P-05-951  
Our ref LG/01597/20

Janet Finch-Saunders AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

Government.Committee.Business@gov.wales

13 Gorffennaf 2020

Annwyl Janet

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 23 Mehefin ynghylch Deiseb P-05-951 – Gosodwch derfyn cyfreithiol ar uchafswm y geist bridio mewn sefydliadau bridio cŵn trwyddedig yng Nghymru.

Yn ystod cyfarfod y Pwyllgor Newid Hinsawdd a Materion Gwledig ddydd lau 11 Mehefin, fe wnes i ail-gadarnhau fy ymrwymiad i gyflwyno deddfwriaeth i wahardd gwerthu cŵn a chathod bach drwy drydydd parti yng Nghymru cyn diwedd tymor y Senedd. Mae gwaith ar y ddeddfwriaeth newydd hon yn mynd rhagddo a lansiwyd ymgynghoriad ffurfiol terfynol ar 22 Mehefin

<https://llyw.cymru/gwahardd-gwerthu-cwn-chathod-bach-gan-drydydd-parti>

Yn fy Natganiad Ysgrifenedig ar 4 Mawrth, ar ôl adolygu'r rheoliadau bridio cŵn, dywedais:

*'...i reoliadau newydd fod yn effeithiol, rhaid inni hefyd fynd i'r afael â rhai o'r rhwystrau i orfodi y mae awdurdodau lleol yn eu hwynebu cyn cynnig diwygio'r Rheoliadau Bridio presennol. Mae'r angen am gysondeb o ran y ffordd y mae awdurdodau lleol yn archwilio a gorfodi yn hollbwysig er mwyn sicrhau lles cŵn bridio a'u cŵn bach. Nid yw safleoedd bridio cŵn wedi'u gwasgaru'n gyfartal ar draws Cymru ac mae hynny'n golygu bod rhai awdurdodau lleol yn ei chael yn anodd ymdopi â'r galwadau.'*

Felly, rwy'n falch i roi gwybod, gan weithio'n agos ag awdurdodau lleol, fod gwaith yn cael ei wneud mewn perthynas â mynd i'r afael â'r rhwystrau i orfodi; darparu hyfforddiant a chanllawiau gwell; a sicrhau bod adnoddau o fewn awdurdodau lleol yn cael eu defnyddio'n well fel rhan o brosiect pilot tair blynedd a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru)  
[Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales](mailto:Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rydych yn sôn yn eich llythyr am ganfyddiadau'r adolygiad a gynhaliwyd drwy Grŵp Gorchwyl a Gorffen Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru. Gellwch fod yn sicr ei fod yn cael ei ddefnyddio mewn perthynas â gwaith prosiect yr awdurdodau lleol, yn wir roedd y ddogfen cwmpasu yn cynnwys rhai o'r canfyddiadau i nodi sut y byddai'r peilot yn cael ei weithredu, a byddwn yn cyfeirio ato dros amser ac wrth symud ymlaen gyda'r gwaith o wella lles cŵn a chŵn bach mewn sefydliadau bridio yng Nghymru.

Mae sefydlu'r prosiect gydag awdurdodau lleol yn gyfle pellach i nodi ar *lawr gwlad* lle y *gall* fod angen newid y ddeddfwriaeth yn y dyfodol ac mae'n bwysig pwysleisio bod hyn yn broses meddwl ymlaen at y dyfodol. Mae hefyd yn rhan o'r broses casglu data a thystiolaeth, gan gynnwys materion sy'n ymwneud â safleoedd bridio mawr yng Nghymru. Rwy'n siŵr y byddwch yn gwerthfawrogi bod angen inni reoli adnoddau yn ofalus ar hyn o bryd yn sgil pandemig COVID-19 felly ni fyddwn yn comisiynu unrhyw ymchwil at ofynion unigol ar yr adeg hon.

Byddwn yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys awdurdodau lleol a'r Gweinyddiaethau eraill i sicrhau ein bod yn cyflwyno newidiadau a fydd yn cael effaith hirdymor ar safonau lles cŵn a chathod yng Nghymru.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "Lesley Griffiths". The signature is written in a cursive, flowing style.

**Lesley Griffiths AS/MS**

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig  
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs